Gwasanaethau Ymgynghorol
Owain Wyn
Consultancy Services

# "CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT MAWRTH 2018"

# GWERTHUSIAD BEIRNIADOL

**Hydref 2018**

10A Stryd y Plas, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RR

Tel: (0)1286 662906/(0)7971 288021 post@burum.cymru www.burum.cymru

# “CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT MAWRTH 2018”

# GWERTHUSIAD BEIRNIADOL

**AWDURON**

Dr. Kathryn Jones, BA, MA (Cymdeithaseg Iaith) , Ph.D.(Polisi a Chynllunio Iaith) Iaith Cyf.

Owain Wyn, B.Sc (Econ), M.Sc (Cynllunio), MBA, MRTPI, BURUM

**Cydnabyddiaeth**

*Comisiynwyd y gwaith hwn gan Bwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn drwy eu Huned Polisi Cynllunio ar y Cyd.*

*Hoffai’r awduron gofnodi eu diolchiadau i’r Pwyllgor a’r Uned am eu gwaith sylfaenol ac arloesol yn drafftio’r CCA drafft a diolch yn arbennig i Mrs. Nia Haf Davies, Rheolwr yr Uned am ei chyngor a chefnogaeth ac am ei sylwadau ac adborth gwerthfawr ac adeiladol.*

## “CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY” DRAFFT MAWRTH 2018 - GWERTHUSIAD

1. Mae’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn wedi awdurdodi’r Uwch Swyddogion perthnasol ar ran Gwasanaeth Cynllunio’r ddau Awdurdod i gomisiynu arbenigwyr allanol i ymgymryd â gwerthusiad beirniadol o’r Canllaw Cynllunio Atodol uchod ar ei ffurf drafft presennol cyn iddo gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

2. Yn gryno, pwrpas y gwaith yw llunio adroddiad cryno a fydd yn:

> *“i. Crynhoi a gwerthuso’r cyngor a’r arweiniad a roddir yn Adran 2 (ac unrhyw Atodiad perthnasol) ynglŷn â chymhwyso Polisi PS 1 y Cynllun yn ystod y camau cyn ac ar ôl cyflwyno cais cynllunio;*
>
> *ii. Dadansoddi Adran 2 o’r Canllaw (ac unrhyw Atodiad perthnasol) mewn dull cytbwys, a fydd yn nodi ei gryfderau a gwendidau. Nid pwrpas y gwerthusiad beirniadol fydd amlygu agweddau negyddol yn unig;*
>
> *iii. Edrych ar Adran 2 o’r Canllaw (ac unrhyw Atodiad perthnasol) a gwerthuso ei lwyddiant, yng ngoleuni ei ddiben, sef darparu arweiniad am ddefnyddio Polisi PS 1 (yn bennaf) i ymgeiswyr (a’r rhai sy’n eu cynghori) sy’n bwriadu cyflwyno datblygiad am ganiatâd cynllunio a’r rhai sy’n gorfod gwneud penderfyniad am y datblygiad arfaethedig.*
>
> *iv. Yn dangos bod yr ymgynghorydd o leiaf wedi gofyn y cwestiynau canlynol iddo’i hun ac wedi mynd i’r afael â hwy:*
>
> > *a Beth ydi amcan y Canllaw? Ydi’r amcan wedi cael ei gyflawni?*
> > *b . Ydi’r disgrifiad o berson cymwys yn gadarn? Ydi rôl y person cymwys yn glir?*
> > *c Mae’r Canllaw yn cyfeirio’r ymgeisydd a’r person cymwys a fydd yn ei gynghori i ffynonellau gwybodaeth – a oes yna ffynonellau eraill?*
> > *ch Beth ydi strwythur Adran 2 o’r Canllaw? A yw'n effeithiol?*
> > *d Ydi’r drefn sgrinio a roddir yn Atodiad 5 yn effeithiol?*
> > *dd Ydi’r fethodoleg sydd yn Atodiad 7 ar gyfer ymgymryd ag asesiad a fydd yn arwain at Ddatganiad Iaith Gymraeg yn effeithiol?*
> > *e Ydi’r fethodoleg sydd yn Atodiad 8 ar gyfer ymgymryd ag asesiad a fydd yn arwain at adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn effeithiol?*
> > *f Awgrymu newidiadau pan fydd angen hynny er mwyn gwella cadernid y Canllaw”.*

3. Gofynnwyd hefyd yn y cyfarfod cychwyn am werthusiad o’r cysylltiad rhwng Adran 1 ac Adran 2 o’r Canllaw er sicrhau ei fod yn llifo’n effeithiol.

**Methodoleg**

4. Yr ydym o'r farn mai cwestiwn allweddol y gwerthusiad yw a fydd amcanion y CCA drafft yn cael eu cyflawni. Wrth fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn, yr oeddem yn ystyried fod defnyddio amrywiad o'r meini prawf a ddefnyddir gan arolygwyr cynllunio i brofi cadernid cynllun datblygu lleol yn rhai defnyddiol a phriodol.

5. Y meini prawf a ddefnyddir i asesu cadernid cynllun datblygu lleol yw:

   - Ydi'r CDLl yn gyson â chynlluniau eraill?
   - Ydi'r CDLl yn gweddu i'r ardal yng ngwyneb y dystiolaeth?
   - A fydd y CDLl yn cyflawni?

6. O'i addasu rhyw ychydig fe ddefnyddiasom y cwestiynau allweddol canlynol i arwain ein llinellau ymholi a gwerthuso ac i roi cyd-destun i'r cwestiynau mwy penodol a ofynnwyd yn y briff :

   - A yw'r CCA drafft yn gyson â Pholisi PS1 (a pholisi cenedlaethol)?
   - A yw'r CCA drafft yn gweddu i amcanion a phwrpas Polisi PS1 yng ngwyneb y dystiolaeth?
   - A yw'r CCA drafft yn debygol o fod yn effeithiol ac yn bosibl i'w weithredu?

7. Mae'r rhain wedyn yn rhoi fframwaith werthuso i'r cwestiynau mwy penodol:

   <u>Corff Y Canllaw Cynllunio Atodol</u>

   - *A yw'r cysylltiad rhwng Adran 1 a 2 yn llifo'n effeithiol?*
   - *A yw strwythur Adran 2 yn effeithiol?*

   <u>Yr Atodiadau</u>

   - *Ydi'r drefn sgrinio a roddir yn Atodiad 5 yn effeithiol?*
   - *A yw'r fethodoleg sydd yn Atodiad 7 ar gyfer ymgymryd ag asesiad a fydd yn arwain at Ddatganiad Iaith Gymraeg yn effeithiol?*
   - *Ydi'r fethodoleg sydd yn Atodiad 8 ar gyfer ymgymryd ag asesiad a fydd yn arwain at adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn effeithiol?*
   - *Ydi'r disgrifiad o berson cymwys yn gadarn? Ydi rôl y person cymwys yn glir?*
   - *A yw'r rhestr o ffynonellau gwybodaeth yn gyflawn?*

8. Bu i'r ddau ohonom (Owain Wyn a Dr. Kathryn Jones) gyfrannu i'r gwaith yn ei gyfanrwydd. Bu i Owain Wyn ganolbwyntio ar gorff y Canllaw drafft ei hun gan sicrhau fod y cyngor a roddir yn y brif ddogfen yn addas i bwrpas ac yn dilyn gofynion deddf, polisïau ac arferion

cynllunio defnydd tir. Bu Dr Kathryn Jones wedyn yn canolbwyntio ar yr Atodiadau perthnasol ac yn arfarnu'r teclynnau a gynhigir ar gyfer mesur effaith iaith, y diffiniad o sgiliau neu brofiad cymwys i ymgymryd ag asesiadau effaith debygol, y dulliau o gasglu tystiolaeth i gefnogi hynny, a'r mesurau lliniaru. Bu'r ddau ohonom ynghlwm wrth olygu a sicrhau fod yr adroddiad terfynol yn cyfarch y briff yn llawn, yn ddarllenadwy ac yn rhoi arweiniad clir.

9. Mae'r awgrymiadau manwl ar gyfer yr CCA wedi eu gwneud ar y testun gwreiddiol (yr "CCA drafft") gan ddefnyddio'r teclyn "Adnabod Newidiadau/ Track Changes"i adnabod y newidiadau neu ychwanegiadau a argymhellir. Mae hyn er mwyn gwneud yn haws i'r darllenydd adnabod y newidiadau hyn ac i'r cyfieithydd gael adeiladu ar y gwaith gwreiddiol.

10. Yn ystod y broses, ymgynghorwyd yn gyson gyda chomisiynydd y prosiect, Mrs Nia Haf Davies, a hoffem ddiolch iddi am ei chyngor a'i chefnogaeth drwy'r prosiect.

**Strwythur a Chynnwys yr CCA Drafft (" y Drafft")**

11. Mae'r Drafft presennol yn cynnwys y canlynol:

- Gwybodaeth Gyffredinol am natur, pwrpas a statws Canllawiau Cynllunio Atodol;
- Cyflwyniad i'r Drafft cyd-destun, pwrpas a strwythur y CCA penodol;
- Adran 1
    a. Rhan A disgrifiad bras o beth a olygir wrth gymunedau nodedig a chynaliadwy;
    b. Rhan B disgrifiad o sut y mae mathau penodol o ddatblygu cynaliadwy yn cyfrannu at gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy;
    c. Rhan C materion i'w hystyried a gwybodaeth ychwanegol angenrheidiol i gefnogi cais cynllunio er mwyn iddo gael ei ddilysu;
    d. Rhan Ch beth all gael ei adeiladu yn lle.
- Adran 2
    e. Y meini prawf a ddefnyddir gan yr Awdurdodau Cynllunio wrth asesu'r dystiolaeth a gyflwynwyd am effaith debygol cynigion penodol ar yr iaith Gymraeg ac wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau yn erbyn gofynion Polisi PS1.
- Atodiadau yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol sy'n cynnig cyd-destun a ffynonellau o wybodaeth a allai fod o ddefnydd i baratoi tystiolaeth.

**Cyd –destun a Sylwadau Cyffredinol**

*Y Cyd -destun*

12. Wrth asesu a yw'r CCA drafft yn addas i bwrpas edrychwyd ar y canllawiau a'r arferion da ar gyfer llunio Canllaw Cynllunio Atodol.

13. Mae'r Polisi Cynllunio Cymru (PCC) cyfredol yn disgrifio agweddau allweddol o lunio Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r rhain yn ymwneud â Ffurf a Chynnwys Cynllun Datblygu Lleol yn Adran 2 ac yn rhoi'r cyd-destun a'r rhesymau pam fod angen Canllaw Cynllunio Atodol:

- Ni ddylai (CDLl) fod yn hir, cymhleth, amwys nac yn orfanwl nac yn gasgliad o bolisïau i ymdrin â phob sefyllfa;
- Dylai'r cynllun gynnwys polisïau i sicrhau canlyniadau, cefnogaeth a nodi dyraniadau safleoedd/ardaloedd datblygu, diffinio lle mae cyfyngiadau'n berthnasol a nodi'r meini prawf cyffredinol ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu a defnyddio tir ac adeiladau, yn ddelfrydol drwy ddefnyddio polisïau generig yn hytrach nag ailadrodd;
- Dylai polisïau fod yn wahanol i gyfiawnhad rhesymegol cryno, ond dylid eu hategu gyda chyfiawnhad o'r fath;

14. Mae Adran 2.3 PCC yn rhoi arweiniad ar Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) - ar ba bryd i'w defnyddio, eu statws a beth i'w gynnwys a beth nad i'w gynnwys (ein **hamlygiad** ni):

- "2.3.1 Dylai CDLlau gynnwys polisïau a chynigion digonol i ddarparu sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio ond gan osgoi gormod o fanylion. Ni ddylent ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol. **Mae defnydd dethol o ganllawiau cynllunio atodol yn ffordd o nodi canllawiau manylach thematig neu benodol i'r safle ar y modd y dylid dehongli a chymhwyso polisïau'r CDLl mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol.**

- 2.3.2 Ni ddylai'r CDLl ddirprwyo'r meini prawf ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio i ganllawiau cynllunio atodol, a **dylai gynnwys arweiniad a chyngor yn unig**. Ni ddylid defnyddio canllawiau cynllunio atodol ychwaith er mwyn i bolisïau a chynigion osgoi craffu cyhoeddus ac archwiliad annibynnol yn unol â'r gweithdrefnau statudol.

- 2.3.3 **Nid yw canllawiau cynllunio atodol yn rhan o'r cynllun datblygu ond rhaid iddynt fod yn gyson â'r cynllun ac â pholisi cenedlaethol**. Rhaid iddynt ddeillio o'r polisi CDLl generig, polisïau penodol ar gyfer lleoedd, a/neu - yn achos uwch gynllun neu'r briff safle - ddyraniad yn y cynllun, a chroesgyfeirio'n glir at y ffynonellau hynny. Ni ellir cysylltu canllawiau cynllunio atodol â pholisi cenedlaethol yn unig; **rhaid cael polisi yn y CDLl neu faen prawf polisi sy'n darparu 'bachyn' yn y cynllun datblygu, tra bo'r cyfiawnhad rhesymegol yn rhoi eglurhad o'r polisi cenedlaethol cysylltiedig**. Dylai'r CDLl nodi pa bolisïau sy'n cael eu hategu gan gynllun datblygu atodol.

- 2.3.4 Dim ond y polisïau yn y cynllun datblygu sydd â statws arbennig dan adran 38(6) o Ddeddf 2004 o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio, ond **gellid ystyried cynlluniau datblygu atodol fel ystyriaeth berthnasol. Wrth wneud penderfyniadau ar faterion a ddaw gerbron, bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi cryn bwys ar gynllun datblygu atodol cymeradwy sy'n deillio o'r cynllun datblygu ac sy'n gyson â'r cynllun hwnnw, ac a fu'n destun ymgynghori**.

- 2.3.5 Er bod cynlluniau datblygu atodol yn anstatudol ac nad oes angen Gwerthusiad Cynaliadwyedd, **gall y Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol fod yn berthnasol i rai mathau o gynlluniau datblygu atodol** - er enghraifft, rhai briffiau safle/uwch gynlluniau/cynlluniau lleoedd. Lle mae sgrinio'n dangos bod Asesu Amgylcheddol Strategol yn berthnasol a'i bod yn debygol y bydd effeithiau amgylcheddol sylweddol, bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol sicrhau ei fod wedi cwrdd â gofynion y Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol."

15. Mae Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol[1] yn ei Eirfa yn cynnwys diffiniad o CCA fel:

- "*gwybodaeth ategol mewn perthynas â pholisïau CDLl. Nid yw CCA yn ffurfio rhan o'r CDLl ac nid yw'n destun archwiliad annibynnol ond mae'n rhaid iddo fod yn gyson â'r Cynllun a pholisïau cynllunio cenedlaethol.*"

**Sylwadau Cyffredinol**

16. Fel y nodir yn nes ymlaen yn yr adroddiad, mae asesiadau effaith yn perthyn i deulu ehangach o dechnegau a ddyfeisiwyd i gyfarch ansicrwydd a'r tebygolrwydd o ddigwyddiad yn cael effaith ar "dderbynnydd" - pa un ai yw hynny yn fywyd gwyllt, eiddo, person, sefydliad neu iaith. Mae i'r technegau hynny, fel pob disgyblaeth arall, eu geirfa neu iaith benodol eu hunain. Lle bo'n berthnasol diwygiwyd disgrifiadau unigol drwy'r CCA drafft i adlewyrchu'r eirfa honno.

**Asesiad o'r Wybodaeth Gyffredinol a gyflwynir am natur, pwrpas a statws Canllawiau Cynllunio Atodol**

17. Ar y cyfan mae'r Wybodaeth Gyffredinol sy'n cynnwys eglurhad o bwrpas, cyd-destun polisi a statws y CCA yn glir gan ddefnyddio iaith addas i bwrpas.

18. Mae Deddf Cynllunio Cymru 2015, o fewn cyd-destun y pum ffordd o weithio sydd yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cryfhau mesurau i sicrhau cyfranogiad y cyhoedd yn y system gynllunio. Yr ydym yn ystyried felly ei fod yn briodol i'r CCA adlewyrchu hynny drwy gryfhau'r cyfeiriad at y gynulleidfa a dargedir :

**Argymhelliad 1**

Addasu'r disgrifiad o'r cynulleidfaoedd targed allanol (gweler 'Pwrpas' tud. 1) i wneud yn eglur at bwy yr anelir y CCA fel a ganlyn:

[1] Llywodraeth Cymru (2015) Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (ail Argraffiad)

*cynorthwyo'r ~~cyhoedd~~ ymgeiswyr a'u hasiantau wrth baratoi'r cynigion cynllunio ac i'w harwain mewn trafodaethau gyda swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio*;

*helpu aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb i ddeall gofynion a disgwyliadau'r polisi perthnasol ac i'w helpu i baratoi sylwadau a mewnbwn ystyrlon i'r broses gwneud penderfyniad*;

**Adran 1**

19. Mae'r Adran hon yn cynnwys y pedair rhan ganlynol.
    - Rhan A disgrifiad bras o beth a olygir wrth gymunedau nodedig a chynaliadwy;
    - Rhan B disgrifiad o sut y mae mathau penodol o ddatblygu cynaliadwy yn cyfrannu at gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy;
    - Rhan C materion i'w hystyried a gwybodaeth ychwanegol angenrheidiol i gefnogi cais cynllunio er mwyn iddo gael ei ddilysu;
    - Rhan Ch beth all gael ei adeiladu yn lle.

20. Er bod cynnwys y pedair rhan yn unigol yn glir, mae pwrpas y naratif wedi ei rannu'n fras yn ddwy. Mae rhannau A a B yn rhoi disgrifiad o egwyddorion, pwrpas a gofynion Polisïau PS5 a PS6 a pherthynas y datblygu cynaliadwy ehangach i brif ffocws y Canllaw, sef egluro gofynion PS1. Mae Rhannau C a Ch yn fwy o arweiniad wedyn i'r cynulleidfaoedd targed (ac ymgeiswyr a rhanddeiliaid eraill yn bennaf) ar sut i gymryd y gofynion datblygu cynaliadwy ehangach hyn i ystyriaeth wrth baratoi ac ymateb i ymgynghoriadau cyn - cais a cheisiadau cynllunio sydd yn berthnasol i Bolisi PS1.

21. Ni fydd y rhanddeiliaid eraill (er enghraifft, ymgeiswyr neu eu hasiantau a'r rhai sydd yn asesu a gwneud penderfyniadau) ar geisiadau cynllunio eraill ( (sef y mwyafrif helaeth o geisiadau cynllunio) yn debygol o chwilio am arweiniad i'r CCA penodol hwn. Ni fyddant, felly, yn debygol o droi at y Canllaw penodol hwn am yr arweiniad a roddir yn Rhannau C a Ch.

22. Gan mai prif bwrpas yr CCA yw rhoi arweiniad ar PS1, yr ydym yn argymell y byddai'n fwy rhesymegol o ran llif y ddogfen i greu Adran 3 a symud Rhannau C a Ch yno.

23. Bydd hyn yn fodd hefyd i sicrhau fod y cysylltiad rhwng Adran 2 a chynnwys Adran 1 ac Adran 3 (y Rhannau "Ch" a "D" newydd) yn llifo'n effeithiol.

**Argymhelliad 2**

Diwygio strwythur y CCA i dair adran ac addasu'r Cyflwyniad (tud. 4) fel a ganlyn:

***ADRAN 1*** *(Rhannau A- B) – beth a olygir gyda chymunedau nodedig a chynaliadwy a sut y gall mathau penodol o ddatblygiad gyfrannu at gynnal neu greu cymunedau nodedig a chynaliadwy*

***ADRAN 2*** *(Rhan C) – sut i ddefnyddio* ***Polisi PS 1 Yr iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig*** *a chyflwyno tystiolaeth i gefnogi’r datblygiad:*

***ADRAN 3*** *(Rhannau CH a D) - egluro i’r ymgeisydd sut i gyflwyno tystiolaeth o blaid y datblygiad yn erbyn y gofynion ehangach o ddatblygiad cynaliadwy ac i ddeall yn well beth ydi rhinweddau cynaliadwy gwahanol fathau o ddatblygiad.*

**Adran 2**

24. Mae Adran 2 yn cychwyn drwy ddisgrifio’r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi , yn amlinellu’r profiadau blaenorol o gynnal asesiadau effeithiol o effaith debygol ar yr iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig a’r anawsterau a brofwyd wrth wneud hynny. Mae wedyn yn mynd ymlaen i roi disgrifiad o’r materion i’w hystyried wrth gynnal asesiad a phryd y mae angen gwneud Datganiad Iaith a phryd i wneud Asesiad Iaith.

25. Mae’r cynnwys hwn at ei gilydd yn dderbyniol cyn belled ag y mae’n mynd o ran cwmpas. Fodd bynnag, yn ein tyb ni, byddai’n elwa o’r newidiadau canlynol.

26. Yn gyntaf byddai’n elwa o gynnwys naratif sy’n esbonio sut y mae asesiadau iaith yn perthyn i deulu ehangach o ddulliau o ddelio gydag ansicrwydd ac asesu a rheoli risg.

27. Mae’r Sefydliad Safoni Rhyngwladol ( ISO The International Organization for Standardization) yn ffederasiwn byd eang o gyrff safonau. Mae’r ISO wedi mabwysiadu ISO 31000 yn 2009 sy’n gosod yr egwyddorion ac arweiniad ar sut i gynnal ymarferion i adnabod a rheoli risg. Mae’r Rhagarweiniad i ganllaw'r ISO yn cynnwys y disgrifiad canlynol:

> *“Organizations of all types and sizes face internal and external factors and influences that make it uncertain whether and when they will achieve their objectives. The effect this uncertainty has on an organization's objectives is “risk”.*
>
> *All activities of an organization involve risk. Organizations manage risk by identifying it, analysing it and then evaluating whether the risk should be modified by risk treatment in order to satisfy their risk criteria. Throughout this process, they communicate and consult with stakeholders and monitor and review the risk and the controls that are modifying the risk in order to ensure that no further risk treatment is required. This International Standard describes this systematic and logical process in detail.*
>
> *While all organizations manage risk to some degree, this International Standard establishes a number of principles that need to be satisfied to make risk management effective. This International Standard recommends that organizations develop, implement and continuously improve a framework whose purpose is to integrate the process for managing risk into the organization's overall governance, strategy and planning, management, reporting processes, policies, values and culture.*

*Risk management can be applied to an entire organization, at its many areas and levels, at any time, as well as to specific functions, projects and activities.”*[2]

28. Tra bo canllaw'r ISO wedi ei anelu’n bennaf at sefydliadau, yn ein tyb ni mae’r un egwyddorion a chanllawiau yn berthnasol i adnabod a rheoli risg amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae felly yn cynnwys asesiadau effaith debygol ar iaith yn ogystal ag adnabod a rheoli risg i fusnes neu sefydliad.

**Argymhelliad 3**

Cynnwys testun yn Adran 2 (gweler tudalen 13) i egluro egwyddorion, fframweithiau a phrosesau asesu effeithiau tebygol i gydnabod perthynas a chyd –destun asesiadau effaith debygol ar iaith i’r teulu ehangach o asesiadau effaith.

29. Yn ail, er bod y naratif yn egluro pryd i ddefnyddio Datganiad Iaith a phryd i ddefnyddio Asesiad Iaith, nid yw’n diffinio’r hyn sy’n wahanol yn y ddau declyn.

30. Yn ein barn ni, nid yw’r prif wahaniaeth yn deillio o’r broses o adnabod, asesu ag ymdrin â risg (mae rhywbeth yn debyg) ond yn deillio o statws cynllunio’r bwriad neu ddatblygiad arfaethedig.

31. Mae Maen Prawf 2 o Bolisi PS1 yn disgrifio datblygiadau “mawr” arfaethedig sy’n destun trefn ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol o dan ofynion Deddf Cynllunio Cymru 2015. Cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer datblygiad mawr mae’n ofynnol i’r ymgeisydd o dan y Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) :

- Gyhoeddi drafft o’r cais;
- Ymgynghori gyda’r gymuned ac ymgynghorwyr arbenigol;
- Ysgrifennu adroddiad am yr ymgynghoriad cyn ymgeisio a wnaed.[3]

32. Fel isafswm mae’r Weithdrefn yn diffinio’r gofynion o ran “y gymuned” ac “ymgynghorwyr arbenigol”. Fodd bynnag, mae anogaeth o dan y Llawlyfr Rheoli Datblygu[4] “*I ymgeiswyr ystyried cyhoeddusrwydd a hysbysiadau mwy eang er mwyn i’r ymgeisydd hyrwyddo’r datblygiad ac ymateb i bryderon cyhoeddus*”.

---

[2] Op. Cit.
[3] Llywodraeth Cymru (2016) Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016
[4] Llywodraeth Cymru (2016) Llawlyfr Rheoli Datblygu, adran 6.4.24

33. Yn ein barn ni, er nad yn ofyniad statudol, mae'n rhesymol a phriodol i'r cynghorau rhoi arweiniad cryf a disgwyliad i ymgeiswyr lunio asesiadau fel rhan o'r broses Cyn Cyflwyno Cais.

34. Byddai dilyn y dull hwn o baratoi Asesiad Effaith Iaith hefyd yn gyson â thrydedd egwyddor yr ISO, sef:

    *“gweithgareddau i gyfathrebu ac ymgynghori gyda rhanddeilaid trwy gydol y broses”.*

35. Yn drydydd, o ran y materion i'w hystyried, yr ydym o'r farn ei fod yn bwysig i'r darllenydd fod yn ymwybodol o drywydd polisi cyhoeddus, yn genedlaethol a lleol o ran cynyddu'r nifer sy'n gallu ac yn defnyddio'r Gymraeg.

36. Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i sicrhau miliwn o bobl yn siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 20150 ac yn disgwyl i bawb chwarae eu rhan wrth wireddu'r uchelgais hon. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi amcanestyniadau a thaflwybr o un ffordd bosibl y gellir cyrraedd y targed erbyn 2050[5].

37. Er bod y taflwybrau hyn ar gael ar gyfer Cymru gyfan yn unig yn awr, maes o law bydd taflwybrau mwy manwl yn debygol o fod ar gael i adnabod cyfraniad pob sir tuag at yr ymdrech.

*38.* Mae gan y ddau Gyngor hefyd fesurau o fewn eu Strategaethau Iaith i gynyddu'r nifer o siaradwyr o fewn y ddwy Sir ac yn cydnabod y rhan y gall datblygiadau mewn meysydd cyflogaeth a llety eu chwarae i wireddu'r targedau hynny.

*39.* Maes o law mae'n debygol y bydd y targedau hyn yn bwydo i mewn i adolygiadau o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac yn dod yn darged neu waelodlin i'r cynllun anelu ato.

40. Byddai'n rhesymol felly i ddisgwyl i ddatblygwyr ymateb i'r heriau hyn yn gadarnhaol drwy adnabod sut y gallent gyfrannu at gyrraedd y targedau hyn a bod y CCA yn tynnu sylw at hyn.

**Argymhelliad 4**

Addasu cynnwys Adran 2 i gynnwys y canlynol:

- addasu'r diagramau cysylltiedig (Diagramau 3,4 a 5) i adlewyrchu hynny. (Gweler tudalen 14 ymlaen);
- diwygio testun i egluro Cam 2 (Paratoi Datganiad, Asesiad neu Dystiolaeth Gefnogol) (gweler tudalen 17);
- addasu'r adran ‘Materion i'w Hystyried' i gynnwys arweiniad ar strategaethau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg (gweler tudalen 18);
- Cynnwys brawddeg neu baragraff i egluro cynnwys Diagramau 8 a 9 (gweler tudalen 25 ymlaen).

[5] Llywodraeth Cymru (2018) Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd , 2011-2050

**Adran 3 (Newydd)**

41. Yn olaf mae adrannau Ch a D yn teilwrio’r arweiniad a roddir yn y CCA Drafft i beth sy’n berthnasol i wahanol fathau o ddatblygiad ac mewn gwahanol leoedd. Oherwydd natur y testun mae’r tablau a’r disgrifiadau a roddir yn y ddwy adran hyn yn weddol eang a chymhleth. O’r herwydd mae’n hawdd i’r ymgeisydd a rhanddeiliaid eraill ddrysu wrth ystyried beth sy’n berthnasol a defnyddiol i’r datblygiad arfaethedig dan sylw. Yn ein tyb ni fyddai’r Adran yn elwa o dabl syml sy’n crynhoi ac adnabod pa rannau o’r Adran sy’n berthnasol.

| **Argymhelliad 5** |
|---|
| Ychwanegu (Tabl 5) sy’n rhoi crynhoi’r arweiniad ac yn nodi’n syml pa rannu o’r wybodaeth sy’n berthnasol neu beidio i wahanol fath o ddatblygiad. (gweler tudalen 42) |

**Yr Atodiadau**

42. Mae mân ychwanegiadau a/neu ddiwygiadau yn cael eu hawgrymu ar gyfer Atodiadau 1,2, 3 a 5. Ni wnaed awgrym ar gyfer unrhyw newid i Atodiad 4. Mae’r prif argymhellion yn ymwneud ag atodiadau 6, 7 ac 8.

*Atodiad 6 Mesurau lliniaru a gwella posib – iaith Gymraeg*

43. Mae nifer o awgrymiadau wedi eu gwneud i gryfhau gweithgareddau lliniaru a gwella gan deilwrio'r gweithgareddau hynny i’r hyn sy’n addas a derbyniol yn ôl y math a graddfa’r datblygiad (gweler Atodiad 6)

*Atodiad 7 Methodoleg ar gyfer paratoi Datganiad*

44. Mae nifer o awgrymiadau wedi eu gwneud i ehangu a chryfhau’r ystyriaeth a’r cwestiynau a ofynnir i’r ymgeisydd ei ystyried wrth baratoi’r datganiad. Mae hyn yn cynnwys disgrifiad o Fframwaith neu Fatrics Risg/Buddion iddynt ystyried i’w defnyddio i gloriannu effeithiau tebygol ar wydnwch y Gymraeg. (gweler Atodiad 7)

*Atodiad 8 Methodoleg ar gyfer paratoi Adroddiad Asesiad Effaith*

45. Gan fod ymgysylltu a gweithgareddau ymgynghori yn rhan allweddol o baratoi Adroddiad Asesiad Effaith, ‘rydym yn awgrymu fod angen ail bwysleisio’r angen am hyn yn y cyngor mwy manwl. ‘Rydym yn cynnwys y disgrifiad o’r Fframwaith neu Fatrics Risg a grybwyllwyd ym mharagraff 43 uchod ac yn gofyn i’r ymgeisydd sgorio gwahanol gwestiynau yn ôl canfyddiad y broses ymgynghori cyn cyflwyno cais.

46. ‘Rydym o’r farn ei fod yn briodol i ofyn i’r ymgeisydd rhoi blaenoriaeth yn gyntaf i ystyried yr effaith debygol y bydd y datblygiad yn cael ar wydnwch yr iaith Gymraeg cyn ehangu’r

ystyriaeth i gynnwys agweddau cynaliadwyedd ehangach. Argymhellwch felly fod Rhan 1 a Rhan 2 o'r broses yn cael eu newid i'r perwyl hynny. (gweler Atodiad 8)

> **Argymhelliad 6**
>
> Mabwysiadu'r newidiadau a awgrymir i'r Atodiadau ym mharagraffau 42 i 46 ac yn y testun i'r atodiadau perthnasol.

**Cyffredinol**

47. Gan fod nifer o ddiagramau, tablau ffigyrau a map yn y ddogfen, awgrymir y byddai rhifo'r tudalennau a rhoi Tudalen cynnwys ar y cychwyn yn help i'r darllenydd ffeindio eu ffordd o gwmpas y CCA.

> **Argymhelliad 7**
>
> Rhifo tudalennau oddi mewn i'r CCA a chynnwys Tudalen Cynnwys ar flaen y ddogfen.

**Crynodeb o'r Canfyddiadau**

48. Gofynnwyd i ni werthuso a fyddai'r Canllaw yn debygol o fod yn cyflawni ei ddibenion ac yn rhoi arweiniad i'r rhanddeiliad hynny sydd â rhan mewn paratoi, asesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol.

49. Mae ein canfyddiadau wedi nodi sawl cryfder i'r drafft gwreiddiol. 'Rydym hefyd yn adnabod meysydd lle'r ydym yn credu y byddai modd cryfhau ei addasrwydd i bwrpas.

50. Yr ydym yn cynnig saith argymhelliad ac awgrymiadau ar gyfer diwygiadau ar strwythur a chynnwys y drafft sylwadau felly sy'n ceisio mynd i'r afael â hyn.

**Yr Argymhellion**

> **Argymhelliad 1**
>
> Addasu'r disgrifiad o'r cynulleidfaoedd targed allanol i wneud yn eglur at bwy yr anelir y CCA fel a ganlyn:
>
> *cynorthwyo'r ~~cyhoedd~~ ymgeiswyr a'u hasiantau wrth baratoi'r cynigion cynllunio ac i'w harwain mewn trafodaethau gyda swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio*;
>
> *helpu aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb i ddeall gofynion a disgwyliadau'r polisi perthnasol ac i'w helpu i baratoi sylwadau a mewnbwn ystyrlon i'r broses gwneud penderfyniad*;

**Argymhelliad 2**

Diwygio strwythur y CCA i dair adran ac addasu'r Cyflwyniad fel a ganlyn:

***ADRAN 1** (Rhannau A- B) – beth a olygir gyda chymunedau nodedig a chynaliadwy a sut y gall mathau penodol o ddatblygiad gyfrannu at gynnal neu greu cymunedau nodedig a chynaliadwy*

***ADRAN 2** (Rhan C) – arweiniad i'r ymgeisydd ar sut i ddefnyddio **Polisi PS 1 Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig** a chyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r datblygiad**:***

***ADRAN 3** (Rhannau CH a D) - Rhannau CH a D) - egluro i'r ymgeisydd sut i gyflwyno tystiolaeth o blaid y datblygiad yn erbyn y gofynion ehangach o ddatblygiad cynaliadwy ac i ddeall yn well beth ydi rhinweddau cynaliadwy gwahanol fathau o ddatblygiad.*

**Argymhelliad 3**

Cynnwys testun i egluro egwyddorion, fframweithiau a phrosesau asesu effeithiau tebygol i gydnabod perthynas a chyd –destun asesiadau effaith debygol ar iaith i'r teulu ehangach o asesiadau effaith.

**Argymhelliad 4**

Addasu cynnwys Adran 2 i gynnwys y canlynol:

- addasu'r diagramau cysylltiedig (Diagramau 3,4 a 5) i adlewyrchu hynny. (Gweler tudalen 14 ymlaen);
- diwygio testun i egluro Cam 2 (Paratoi Datganiad, Asesiad neu Dystiolaeth Gefnogol) (gweler tudalen 17);
- addasu'r adran 'Materion i'w Hystyried' i gynnwys arweiniad ar strategaethau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg (gweler tudalen 18);
- Cynnwys brawddeg neu baragraff i egluro cynnwys Diagramau 8 a 9 (gweler tudalen 25 ymlaen).

**Argymhelliad 5**

Ychwanegu (Tabl 5) sy'n rhoi crynhoi'r arweiniad ac yn nodi'n syml pa rannu o'r wybodaeth sy'n berthnasol neu beidio i wahanol fath o ddatblygiad.

**Argymhelliad 6**

Mabwysiadu'r newidiadau a awgrymir i Atodiadau a awgrymir ym mharagraffau 41 i 45 ac yn y testun i'r atodiadau perthnasol.

**Argymhelliad 7**

Rhifo tudalennau oddi mewn i'r CCA a chynnwys Tudalen Cynnwys ar flaen y ddogfen.

**Owain Wyn, Gwasanaethau Ymgynghorol BURUM**
**Dr. Kathryn Jones, Iaith Cyf.**

**Hydref 2018**